

Cyngor Cymuned Llanelian (321)

Cofnodion cyfarfod Chwefror 11, 2020 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Thomas Jones, Hefina Williams, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Cyng. Richard Griffiths Carli Evans Thau (Clerc), Dewi Francis Jones (Prid Swyddog Cynllunio), Rebeca Jones (Rheolwr Gwasanaeth Polisi), Aelod o'r cyhoedd.

Ymddiheuriadau: Elfyn Hughes, Ian Evans, Cyng. Aled Jones, Cyng. Richard Jones

Yn absennol: Neb

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan ddiolch i'r swyddogion am eu presenoldeb.

2 Datgan Diddordeb

Carol Whitaker – materion yn ymwneud a Stryd y Capel

3 Dewi Francis Jones a Rebeca Jones – Swyddogion Cynllunio

Croesawyd y swyddogion i'r cyfarfod a diolch iddynt am y cyfle i gael holi cwestiynnau a thrafod pryderon yr aelodau.

Fe ofynnwyd i'r swyddogion faint o sylw mae CSYM yn ei gymryd o sylwadau'r cyngor cymuned. Nid yn unig yn yr adran gynllunio ond yn gyffredinol, teimlai'r aelodau nad oedd CSYM yn cymryd sylwadau'r cyngor o ddifrif.

Cadarnhaodd Mr Jones ei fod yn statudol ofynnol bod CSYM yn ymgynghori gyda cynghorau tref a chymuned ar pob cais cynllunio. Mae'r ymatebion yma yn cael eu cynnwys mewn adroddiad gan y swyddogion perthnasol cyn dod i benderfyniad. Mae'r swyddogion ynghlwm i bolisiau a deddf glwad ac nid yw eu penderfyniad pob tro yn cytuno a'r sylwadau gan cynghorau tref a chymuned.

Cadarnhaodd bod CSYM yn gorfod ymgynghori a nifer o gyrrff arbennigol megis Dwr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Adran Briffyrdd er enghraifft. Cadarnhaodd y byddai Dwr Cymru e.e. yn ymateb ar faterion cyswllt dwr, carffosiaeth ac ati gan mai nhw yw'r arbennigwyr yn y maes. Gofynnwyd os oedd ymateb Dwr Cymru i geisiadau i'w gael yn ysgrifennedig ac i'w weld yn y ffeil priodol. Roedd gan yr aelodau bryderon am system garffosiaeth yr ardal, ac wedi nodi hyn sawl gwaith mewn ymateb i geisiadau cynllunio ac wedi dwyn y mater i sylw Dwr Cymru yn dilyn nifer o gwynion gan aelodau'r gymuned.

Nodwyd bod problem enbyd yn Lon Tyddyn Waen ers blynyddoedd ond nad oedd Dwr Cymru yn cymryd unrhyw sylw o gwynion y gymuned. Roedd caniatáu adeiladu nifer o dai ychwanegol yn safle'r Bedol yn codi pryder i'r aelodau gan fod nifer o safleoedd eisioes yn y pentref wedi cael caniatad cynllunio a bod pryder na fyddai'r systemau presennol yn gallu ymdopi a'r galw ychwanegol. Nododd y swyddogion eu bod yn ddibynnol ar Dwr Cymru i godi sylw ar y mater gan mai hwy oedd arbennigwyr y maes.

Cadarnhawud bod unrhyw bryderon yn cael eu pasio i'r arbennigwyr yn y maes am sylw CET pellach. Teimlai'r aelodau efallai mai gyda Dwr Cymru felly oedd y ddadl ac nid o reidrwydd gyda CSYM. Awgrymwyd bod y cyngor cymuned yn ysgrifennu at Dwr Cymru yn nodi eu pryderon a'u gwahodd i gyfarfod.

Roedd aelodau yn bryderus iawn am y fynedfa arfaethiedig i safle'r Bedol pan fu'n cael ei ail-ddatblygu. Mae rhannu'r un fynedfa a stad Tynrhos (60 o dai) a maes carafannau, gyda dau safle bws ar y ffordd fawr a stad newydd o dai (Stad Dublin) ar draws y lon yn codi pryder mawr i'r gymuned. Teimlwyd byddai posib gwella diogelwch y datblygiad wrth beidio ag adeiladu un o'r tai a defnyddio'r ail fynediad i'r safle yn hytrach na thrwy Stad Tynrhos. Cadarnhawyd bod cyswllt wedi ei wneud a'r adran briffyrdd a'u bod hwythau yn dilyn safonau cenedlaethol pendant. Nodwyd bod swyddog cynllunio a swyddog priffyrdd yn ymweld a phob safle. Teimlai'r cyngor cymuned nad oedd pwrpas felly ymateb i

geisiadau cynlluniau os nad CSYM yn cymryd sylwadau'r aelodau o ddifrif.

Cafwyd engrhaifft ble roedd gwybodaeth leol a hanes safle wedi profi yn groes i benderfyniad y swyddogion, gyda'r datblygiad yn gwynebu nifer o broblemau gyda tir lithriadau. Roedd y cyngor cymuned wedi gwrthod y cais am y rhesymau hyn, gan fod yr aelodau yn adnabod eu hardal. Nododd y swyddogion cynllunio mai mater i'r adran rheoliadau adeiladu fyddai'r dull adeiladu a'r safonau. Nid oes rhaid i ddatblygwr ddefnyddio CSYM am y gwasanaeth yma, ac felly nid oes gan CSYM o reidrwydd haw li fynychu'r safle. Os mai CSYM sydd yn darparu'r gwasanaeth yma, mae'r datblygiad yn cael ei oruwchwylio drwy gydol y gwaith. Nid yr adran gynllunio sydd yn gyfrifol am y gwaith yma.

Pwysleisiodd Mr Jones a Ms Jones nad oedd gan yr adran gynllunio dewis ond dilyn safonau a pholisiau cenedlaethol. Cadarnhawyd bod ymateb yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob ymgynghoriad polisi, ond nad oedd rheolaeth dros y llywodraeth, os ydi'r swyddogion yng Nghaerdydd yn anwybyddu neu cymryd sylw o'r sylwadau sy'n cael eu cyflwyno. Dychmygwyd bod pob adran CSYM yn yr un sefyllfa ac yn gwynebu heriau tebyg.

Gofynnwyd i'r swyddogion pam fod cais safle'r Bedol yn dal i ddangos ar wefan CSYM nad oed dpenderynniad wedi ei wneud er bod y wasg wedi cyhoeddi bod y pwyllgor cynllunio wedi cymeradwyo'r cais. Cafwyd wybod nad oedd y cytundeb 106 wedi ei gytuno eto. Deallwyd bod y swyddogion a'r cynghorwyr wedi cefnogi'r cais er bod gan y gymuned a'r cyngor cymuned bryderon. Gofynnodd Rchard Griffiths os oedd angen disgwyl am ddamwain cyn i CSYM gymryd mwy o sylw o sylwadau cynghorau tref a cymuned. Mae cynghorau eraill hefyd yn cwyno am yr un problemau ac yn teimlo nad oedd CSYM yn cymryd eu sylwadau o ddifrif. Teimlai'r gymuned mai'r fynedfa gorau ar gyfer stad y Bedol fyddai hwnw sydd yn cael ei gau i fynu, teimlwyd bod y cynlluniau yn groes i les y gymuned ac yn rhoi cywydau mewn perygl.

Gofynnwyd os oedd y swyddogion wedi ystyried y nifer o safleoedd adeiladu eisioes gyda caniatad cynllunio yn y pentref, a'r nifer o dai gwag – oedd angen am fwy o dai? Nid oes llawer ers yr arolwg angen tai tai yn yr ardal ac mae Stad Dublin wedi darparu'r naw ty oedd wedi ei adnabod. Gofynnwyd os oedd unrhyw syniad am werth y tai arfaethedig ar safle'r Bedol, sut mae diogelu tai fforddiadwy wedi'r gwerthiant cyntaf? Cadarnhawyd byddai hyn yn rhan o'r gytundeb 106 ac yn rhan o weithredoedd y ty unigol. Nid oes gan yr adran gynllunio reolaeth i bwy na ble mae'r tai yn cael eu gwerthu.

Fe ofynnwyd i Ms Jones pa bryd fyddai gwaith yn dechrau ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Mon) 2026-. Deallwyd bod adolygiad o'r cynllun cyfredol i ddechrau 2021; nodwyd fodd bynnag bod nifer o ffactorau allanol yn cael effaith ar y cynllun megis ffranwaith datblygu cenedlaethol y llywodraeth. Mae'r ddogfen yma yn gallu cael effaith ar y Cynllun Strategol ac fell yn yn ei dwrn ar y Cynllun Lleol.

Roedd materion gorfodaeth yn bryder i'r aelodau ac fe ofynnwyd am ddiweddariad am y sefyllfa yn gyffredinol. Nodwyd bod cyswllt wedi wneud a'r adran gynllunio ynglyn a rhai achosion ers peth amser ond nad oedd adborth nac unrhyw ymateb cadarnhaol gan swyddogion yr ardal. Deallwyd bod y clerc a'r cynghorwyr sirol wedi cysylltu a'r adran i godi ymwybyddiaeth am bryderon y gymuned ond nad oedd unrhyw ddiweddariad hyd yma. Bydd Mr Jones yn adrodd yn ol cyn diwedd yr wythnos.

DFJ

Diolchwyd i'r swyddogion am eu hamser ac am ddod i'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau wyneb yn wyneb.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion. Cynnig Hefina Williams, eilio John Griffiths

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Sedd Wag – Cadarnhawyd bod angen i unrhyw un a diddordeb cael eu cyfethol gysylltu a'r clerc yn ydgrifenedig erbyn Chwefror 20, 2020. Bydd cyfle wedyn i ystyried y ceisiadau a chyfethol yn y cyfarfod nesaf.

- 5.2 Materion priffyrdd** – bu i Carol Whitaker ddatgan diddordeb a pheidio cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd y clerc eisioes wedi anfon gwybodaeth pellach i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod yn y pentref gyda Alun Roberts (swyddog priffyrdd).
- Cafwyd wybod bod CSYM am wneud arolwg cyflymder yn y pentref yn fuan.
 - Trafodwyd y posibilrwydd o system un ffordd yn y pentref (Bangor i Amlwch; Stad Tynrhos hyd Stad Penysarn Fawr), cytuno byddai angen trafod ymhellach ac ymgynghori gyda'r gymuned eang cyn dod i benderfyniad. Nodwyd bod angen hefyd ystyried rheini oedd yn cerdded neu beicio drwyr pentref hefyd. Trafodwyd y posibilrwydd o newid ffurf y gyffordd yn y sgwar.
 - Cadarnhawyd bod y swyddogion perthnasol yn ymwybodol o'r problemau draenio yn y pentref.
 - Bydd marciau ffordd newydd yn dynodi'r safleoedd bws ger mynedfa Tynrhos / Dubin er mwyn codi ymwybyddiaeth gyrrwyr i beidio parcio yno.
 - Bydd y gordyfiant ger y cae chwarae yn cael sylw cyn gynted a phosib.
- Cytuno byddai angen mwy o wybodaeth arbennigol i ddylunio cynlluniau ac ymgynghoriad gyda'r gymuned eang cyn dod i benderfyniad.
- 5.3 Nwy i'r Pentref** – cafwyd ymateb gan Wales and West Utilities yn nodi nad oedd cynlluniau i ddod a nwy i'r pentref, ac yn amlinellu'r gost am wneud hynnu (yn daladwy gan yr eiddo perthnasol). Cytuno gofyn am gynllun yn dangos eu rhwydwaith presennol yn yr ardal. Nid oes ymateb gan CSYM hyd yma. CET
- 5.4 Manhole Lon Gadfa** – cafwyd gadarnhad bod y gwaith wedi ei gydnabod gan y tim cymunedol ond bod gwaith arall wedi ei flaenoriaethu ar hyn o bryd.
- 5.5 Hyfforddiant di-ffibriwleiddiwr** – mae sesiwn hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer nos Fercher 19/2/2020 am 6 o'r gloch i'w ddilyn gan gyfarfod agored i'r gymuned am 7yh.
- 5.6 Cyngrair Twrcelyn a Grantiau Amgylcheddol** – cytuno trefnu cyfarfodydd yn dilyn y cyfarfod agored 19/2/2020 wedi i'r gymuned cael rhannu syniadau. Cynnigodd Richard Griffiths wahodd y swyddogion perthnasol i drafod y grant amgylcheddol i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor i gyflwyno'r cynllun. Pawb yn gefnogol. Bu i Richard Griffiths adael y cyfarfod am 8.45yh. RG
- 6 Adroddiadau Pwyllgorau**
- 6.1 Caeau Chwarae** – Nododd Gordon Hayes ei fod wed cael prisiau gan gwmnïau eraill am y plastig i drin y meinciau ym Maes Llwyfo a'u bod yn ddrytach na'r pris gwreiddiol. Cytuno felly ail-osod y meinciau gyda coed. Gordon Hayes i drefnu. GH
- 6.2 Llithrfa** – dim diweddariad.
- 6.3 Mynwent** – Cytuno gofyn i Richard Edwards am bris am y gwaith ychwanegol oedd angen ei wneud yn y fynwent gan mai ef sydd a'r gytundeb cynnal a chadw yno. Cadarnhawyd bydd taliad a chytundeb am y mainc newydd yn y fynwent wedi ei dderbyn yn fuan. CET
- Nid oes diweddariad hyd yma gan yr Henaduriaeth am y gwaith i lwybr Mynwent Bosra, ond mae disgwyl i'r llwybr gael ei gwblhau cyn i'r mainc gael ei osod.
- 6.4 Cyllid a Pholisi** – dim diweddariad.
- 6.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – daw llythyr gan Gwyn Roberts yn amlinellu syniadau am brosiectau. Cytuno trafod mewn manylder yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Mae cyfarfod agored wedi ei drefnu yn y Neuadd nos Fercher 19/2/2020 am 7 o'r gloch er mwyn rhoi cyfle i'r gymuned rannu eu syniadau.
- 6.6 Pwyllgorau Allannol** –
- 6.6.1** Cafwyd grynoded gan Dafydd Griffiths yn dilyn sesiwn gyda'r Arolygaeth Gynllunio yn Llandudno. Roedd wedi anfon adroddiad i'r aelodau cyn y cyfarfod er gwybodaeth.

- 6.6.2** Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths am gyfarfod ymgynghori CSYM am y gyllideb am y flwyddyn i ddod. Roedd angen ymateb erbyn 7/2/2020. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu yn gofyn am estyniad ond bod angen ymateb erbyn yfory (12/2/2020). Cytuno ymateb yn datgan nad oedd tai wythnos yn amser digonol o drin a thrafod y ddogfen, yn enwedig wrth ystyried mai dim ond unwaith y mis mae cynghorau bach yn cwrdd. Gobeithir bydd mawr o amser ymgynghori y flwyddyn nesaf. CET

7 Cynllunio

- 7.1 Ceisiadau** – dim ceisiadau newydd.

- 7.2 Penderfyniadau** – dim wedi eu derbyn.

7.3 Gorfodaeth

Dim diweddariad hyd yma. Dewi Francis Jones am drafod gyda'r swyddogion perthnasol ac adrodd yn ol (gweler uchod).

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£7868.89 R Edwards (cynnal a chadw 2019)
£15.00 Carol Whitaker (goleuadau)
£120.00 Anglesey Mowers (coeden)
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog)
£557.01 CSYM (cynllun lliithrfa)
£202.00 Un Llais Cymru (aelodaeth)

8.2 Ceisiadau am Arian

Cyflwynwyd dau gais am gefnogaeth –
OWL Cymru – cytuno peidio a chefnogi.
Ambiwlans Awyr Cymru – cytuno trafod eto.

8.3 Penodi Archwiliwr 2019/20

Cytuno penodi Alun Foulkes i gwblhau'r archwiliad mewnol 2019/20.

9 Iechyd a Diogelwch

- 9.1** Llifogydd – nodwyd pryderon mawr am ddiogelwch tai yn y pentref wedi'r llifogydd yn ddiweddar. Roedd aelodau wedi cysylltu a CSYM am fapiau tywod ond wedi cael gwybod nad oedd oedd y cyngor yn darparu rhain bellach a byddai angen mynd i siop a phrynu rhai eich hunain. Nodwyd bod y dwr ar Stryd y Capel wedi bod ar yr un lefel a'r palmant a bod y trigolion wedi bod yn lwcus iawn nad oeddent wedi cael difrod; mae'r problem gyda'r 'gulleys' yn parhau yn bryder i drigolion yr ardal ac mae swyddogion CSYM yn ymwybodol ac wedi cydnabod y mater.

Nodwyd pryder bod swyddogion CSYM wedi bod i wirio'r sefyllfa ym Mhengorffwysfa ond heb gael allan o'u cerbyd. Cytuno cysylltu a CSYM a gofyn am gopi o'r strategaeth argyfwng llifogydd. Mae'r llifogydd diweddar wedi dangos bod angen mwy o waith cynnal a chadw er mwyn diogelu trigolion a'u heiddo. CET

10 Arosfa Bws Pengorffwysfa

Dafydd Griffiths, Thomas Jones a John Griffiths i gael prisiau am y gwaith er mwyn cael syniad o'r gost. Mae'n debyg bydd cysgodfannau eraill angen sylw hefyd. DG

TJ
JG

- 11 Wylfa Newydd** - Dim diweddariad

12 Gohebiaeth

- 12.1** Llythyr gan CSYM yn nodi bydd taliad tuag at waith cynnal a chdw'r fynwent gan nad oedd y cyngor yn codi am gladdidegaethau i blant dan 18 oed. Nid oes cadarnhad faint o arian sydd ar gael eto.

- 12.2 Rhybydd cau lon o Tynrhos Bach, Nebo hyd y gyffordd a Dulas ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- 12.3 Peiriannau cyflenwi dwr – trafodwyd y posibilrwydd o osod peiriannau yn y gymuned; y lleoliad mwyaf addas fyddai'r toiledau ger y traeth sydd yn eiddo i CSYM beth bynnag. Cytuno na fyddai'r cyngor cymuned yn gosod peiriannau eu hunain oherwydd y gost sylweddol i'w cynnal a diogelu'r cyflenwad dwr i'r defnyddwyr. CET
- 12.4 Cadw Cymru'n Daclus – daw gwybodaeth drwy ebost am ddiwyddiad cenedlaethol i gasglu sbwriel a thacluso cymunedau. Dafydd Griffiths i edrych fewn i'r posibilrwydd o gael digwyddiad yn y pentref a chydlynnu unrhyw drefniadau. DG
- 13 Moderneiddio Ysgolion**
Daw holiadur gan CSYM yn gofyn am weithgareddau yn y gymuned, cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon i'r aelodau drwy ebost. Cafwyd rhestr gan Glenys Jones o'r gweithgareddau hynnu oedd ynghlwm a'r ysgol. Cytuno heb yr ysgol fyddai'r gymuned yn dlawd iawn, a bydd brwydr ar ein dwylo i ddiogelu'r ysgol a darpariaeth addysg yn y pentref. Roedd yr aelodau am i'r clerc gysylltu a CSYM am gadarnhad pam fod angen gwybododaeth am weithgareddau cymunedol cyn anfon unrhyw wybodaeth pellach. CET
- 14 Rheolau Sefydlog** – dim diweddariad.
- 15 Unrhyw Fater Arall**
- 15.1 Bu atgoffa'r aelodau bod hyfforddiant di-ffibriwleiddiwr wedi ei drefnu ar gyfer nos Fercher 19/2/2020 am 6 o'r gloch i'w ddilyn gyda cyfarfod agored am 7 o'r gloch i gael syniadau am brosiectau i'r ardal (cynlluniau grant ac arian Ty Moel Isaf).
- 15.2 Cais Rhyddid Gwybodaeth – nododd y clerc ei bod wedi cais cais am wybodaeth ariannol y cyngor a chopiau o'r cofnodion. Nodwyd bod y cais wedi dod drwy wefan yn hytrach nac gan unigolyn a bod nifer o gynghorau eraill wedi cael union yr un cais. Y clerc i wneud ymholiadau pellach ac ymateb i'r cais. CET
- 15.3 Nodwyd bod y blwch ffon wedi ei symud o'r pentref erbyn hyn, gofynnwyd a fyddai posibil paentio'r blwch (BT) sydd ar ol gan ei fod yn fler ei olwg. Y clerc i wneud ymholiadau. CET
- 15.4 Nodwyd bod siop newydd yn agor yn fuan yn Ty Copr, bydd yn gwerthu cynyrch lleol megis cwrw lleol, cynnyrch cartref, crefftau ayyb.
- 15.5 Nodwyd bod yr hen arwydd yn y sgwar wedi pydru ac wedi disgyn. Y clerc i gysylltu a CSYM i'w drin a'i ail osod. Cytuno bod angen diogelu'r arwydd. CET
- 16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Mawrth 10, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 21.50

**Arwyddwyd
Dafydd Griffiths**